

**OMBWDSMON  
GWASANAETHAU  
CYHOEDDUS CYMRU**

**CYFRIFON BLYNYDDOL  
AM Y FLWYDDYN  
YN DIWEDDU  
31 MAWRTH 2007**

## **OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

### **CYFRIFON BLYNYDDOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2007**

#### **Adroddiad yr Ombwdsmon**

#### **HANES A CHEFNDIR STATUDOL**

Dyma Gyfrifon Blynyddol cyntaf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Daeth y swydd newydd i fodolaeth yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2006, ar ôl i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 uno'r pedair swydd ombwdsmyn ar wahân yr oeddwn yn eu dal fel Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol Cymru, Comisiynydd Gwasanaethau Iechyd Cymru, Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ac Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru. Ar 12 Hydref 2005, pasiodd y Cynulliad Cenedlaethol orchymyn i ddechrau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005: daeth y mwyafrif llethol o'i darpariaethau i rym o 1 Ebrill 2006 ymlaen, ond daeth rhai darpariaethau, gan gynnwys rhai i alluogi penodi'r Ombwdsmon, i rym yn syth. Fe'm penodwyd yn ffurfiol yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Ei Mawrhydi'r Frenhines ar argymhelliad Ysgrifennydd Gwladol Cymru, am gyfnod penodol o saith mlynedd yn dechrau ar 12 Hydref 2005.

O ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, daeth newidiadau i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, sy'n effeithio ar gyllido fy swyddfa, i rym o 1 Ebrill 2007 ymlaen. Yn awr, bydd cost cyflogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn daliad uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, sydd newydd gael ei sefydlu. Archwilir fy nghynnig cyllideb ar gyfer costau rhedeg fy swyddfa gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gallant hwy gynnig addasiadau iddo. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys darpariaeth ar gyfer cost fy swyddfa yn eu cynigion cyllideb, ar y sail a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cyllid. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu gweithdrefn Swyddfa Archwilio Cymru ac mae wedi'i gynllunio i sicrhau annibyniaeth fy swyddogaeth.

## **CYFARWYDDYD CYFRIFON**

Dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Drysorlys E M dyddiedig 21 Rhagfyr 2006, mae'n ofynnol i mi ddarparu cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2007 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu yr argraffiad o Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (y FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ac a oedd mewn grym ar gyfer 2006-07.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi fel eu bod:

(a) yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa fusnes ar 31 Mawrth 2007 ac o'r adnoddau net terfynol, yr adnoddau a wariwyd ar amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben; a

(b) yn datgelu unrhyw wariant neu incwm sylweddol na chafodd ei ddefnyddio i'r pwrpas y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu unrhyw drafodion busnes o bwys nad oedd yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## **ARCHWILWYR**

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol cyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cost archwiliad 2006-07 oedd £14.5k. Mae hyn yn cymharu â £14k ar gyfer 2005-06. Cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol, yr wyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau bod yr archwilwyr yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i wirio bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae gennyf gytundeb ar wahân gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer darparu cyngor am adnoddau dynol. Talwyd £9.7k i Swyddfa Archwilio Cymru dan y cytundeb hwnnw.

## **NODAU AC AMCANION**

Diben Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio'n annibynnol a diduedd i gwynion gan y cyhoedd am y ffordd y cawsant eu trin gan gorff cyhoeddus. Yr wyf yn disgwyl i gyrff cyhoeddus drin pobl yn deg, yn ystyriol ac yn effeithiol. Os caf fod cwyn wedi'i chyfiawnhau, argymhellaf gamau priodol i wneud iawn am y cam.

Swyddogaeth bwysig arall sydd gennyf yw ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdod lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Fy nod yw rhoi gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru trwy:

- (a) ymchwilio i gwynion mor drwyadl ag sy'n angenrheidiol ac mor gyflym ag sy'n bosibl
- (b) codi ymwybyddiaeth o wasanaeth yr Ombwdsmon a sicrhau ei fod ar gael yn rhwydd i ddarpar ddefnyddwyr
- (c) defnyddio gwersi a ddysgir yn sgil fy ymchwiliadau i hybu ymarfer da a threfn lywodraethu dda gan gyrff cyhoeddus
- (d) sicrhau trefn lywodraethu dda a rheolaeth effeithiol o fewn fy swyddfa.

### **PRIF WEITHGAREDDAU**

Y prif weithgareddau a gyflawnir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n dod o dan y cyfrifon hyn oedd:

- (a) ymchwilio i gwynion oddi wrth aelodau'r cyhoedd yn erbyn awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chynghorau cymuned) yng Nghymru;
- (b) ymchwilio i honiadau yn erbyn aelodau awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chynghorau cymuned) o dorri cod ymddygiad eu hawdurdod i aelodau;
- (c) ymchwilio i gwynion oddi wrth aelodau'r cyhoedd yn erbyn cyrff y GIG, ymarferwyr gwasanaethau iechyd teuluol a darparwyr annibynnol gwasanaethau'r GIG yng Nghymru;
- (d) ymchwilio i gwynion yn erbyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad; ac
- (e) ymchwilio i gwynion yn erbyn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

### **SYLWADAU RHEOLI**

Mae'n bleser gallu adrodd bod blwyddyn agoriadol y gwasanaeth Ombwdsmon newydd yng Nghymru wedi pasio'n rhwydd, a bod mwy o bobl nag erioed wedi defnyddio'r gwasanaeth. Yr wyf wedi bod yn ffodus i allu adeiladu ar flwyddyn o weithio'n gysgodol fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'r cyhoeddusrwydd a dderbyniodd y gwasanaeth newydd ar ddechrau 2005-06, a'r ymwybyddiaeth uwch, o ganlyniad, ymhlith y cyhoedd o fodolaeth y gwasanaeth, wedi cael effaith ddramatig ar nifer y cwynion a gefais yn ystod 2005-06, sydd wedi cynyddu bron draean ers y flwyddyn flaenorol.

Mae 2006-07 wedi dangos nad rhywbeth byrhoedlog oedd y cynnydd yn lefel y galw: cafwyd cynnydd sylweddol pellach yn nifer y cwynion a gefais o gamweinyddu neu

fethiant gwasanaeth – er fy mod yn falch o ddweud bod yr effaith ar y llwyth gwaith yn fy swyddfa wedi'i gydbwysu i raddau gan y lleihad sylweddol yn nifer yr honiadau bod aelodau o gynghorau cymuned wedi torri'r cod ymddygiad. Amlinellir cyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf yn fanylach yn adroddiad blynyddol statudol 2006-07.

Darparodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru £4.1 miliwn o gyllid. Yr oedd hyn yn cynnwys digon o gyllid i ganiatáu setlo'r diffyg o flynyddoedd gynt mewn pensiynau a oedd yn ymwneud â'r Swyddfa hon o £1.64 miliwn yng Nghronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro. Yn ystod y flwyddyn, ildwyd prydles pumed llawr Tŵr y Ddinas, Caerdydd, ar ddiwedd y tymor deng mlynedd. Cwblhawyd y negodiadau ynghylch y costau dadfeilio o ganlyniad i'r terfynu yn ystod y flwyddyn. Ar ôl yr ildio, yr unig eiddo a brydlesir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw'r un a feddiannir ym Mharc Bocam.

Mae'r cynnydd mewn costau cyflogaeth yn deillio o effaith blwyddyn gyfan y newidiadau staffio a roddwyd ar waith yn 2005-06 er mwyn cyflawni'r amcan o ddarparu gwasanaeth ombwdsmon o'r radd flaenaf ar gyfer Cymru.

## **TÂL**

Dangosir manylion fy nhâl yn yr Adroddiad Taliadau.

## **RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN**

Caiff yr ymrwymadau pensiwn i weithwyr presennol a chyn-weithwyr eu darparu drwy'r canlynol:

- (a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS);
- (b) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa); ac
- (c) Y pensiynau a delir yn uniongyrchol i gyn-Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

Rhoddir manylion pellach yn Nodyn 3 y Cyfrifon hyn.

## **POLISI CYFLOGAETH**

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn recriwtio yn ôl yr egwyddor o ddethol ar sail haeddiant drwy gystadleuaeth deg ac agored ac mae'n ymrwymedig i ddarparu cyfle cyfartal i bob aelod o staff. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd wedi ymrwymo i gydymffurfio â darpariaethau Deddf

Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, yn ogystal â chwrdd â'r holl ofynion statudol eraill.

## **TALU CYFLENWYR**

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i gydymffurfio â Rheoliadau Hwyr-daliad Dyledion Masnachol 2002. Y polisi talu yw y telir anfonebau yn unol ag amodau contract y cytunwyd arnynt, neu, lle nad oes amodau o'r fath, o fewn 30 diwrnod i fod wedi derbyn nwyddau a gwasanaethau neu gyflwyno anfoneb ddilys amdanynt, pa bynnag un sydd ddiweddaraf. Yn ystod 2006-07, talwyd 97% o anfonebau yn unol â'r polisi hwn (o'i gymharu â 86% ym 2005-06). Deilliodd y gwell perfformiad o sefydlogrwydd y systemau cyfrifyddu ar ôl sefydlu'r sefydliad newydd.

## **LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Yn swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yr wyf yn gweithredu fel corfforaeth unigol. Hefyd, cefais fy mhenodi gan y Trysorlys yn Swyddog Cyfrifyddu'r cronfeydd cyhoeddus a ddarperir imi gan y Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni fy swyddogaethau.

Ym mis Mawrth 2006, sefydlais Bwyllgor Archwilio i'm cefnogi yn fy swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu. Y Cadeirydd annibynnol yw Laurie Pavelin CBE FCA, ac mae ganddo brofiad sylweddol o gyfrifyddu sector cyhoeddus a rheoli ariannol sy'n deillio o'i swyddogaeth flaenorol o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Aelodau eraill y pwyllgor yw Elizabeth Thomas, yn ei swyddogaeth fel Cynghorydd Cyfreithiol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ynghyd â mi, y Swyddog Cyfrifyddu. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Hefyd, yn y cyfarfod ym mis Ebrill 2007, adolygodd y Pwyllgor y cylch gorchwyl yn erbyn y pum egwyddor arfer da ar gyfer Pwyllgorau Archwilio fel yr amlinellwyd yn y Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007 gan Drysorlys E M. Roedd y canfyddiadau'n cadarnhau'r cylch gorchwyl presennol ac yn cymeradwyo'r cylch gorchwyl presennol, a'r aelodaeth.

Yn ystod y flwyddyn, penododd y Pwyllgor Bentley Jennison yn archwilwyr mewnol y sefydliad. Eu tasg gyntaf oedd cynghori'r Pwyllgor am eu Hasesiad Anghenion Archwilio ar gyfer y sefydliad. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau yn unol â'r ddogfen honno. Yr oedd adolygiad cychwynnol o Drefn Lywodraethu Corfforaethol y Swyddfa o fudd neilltuol, ynghyd ag adolygiad o'r Rheolyddion Ariannol Allweddol a ddefnyddir.

Hefyd, bydd y Pwyllgor yn adolygu'r Gofrestr Risg ym mhob cyfarfod ac yn derbyn adroddiadau perthnasol am unrhyw newidiadau arwyddocaol. Disgwylir adolygiad Archwiliad Mewnol o'r gweithdrefnau Rheoli Risg. Ystyriodd y Pwyllgor Gyfrifon Blyneddol y sefydliad ar gyfer 2005-06 ynghyd ag adroddiad yr Archwiliad a'r Llythyr Rheoli gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Adolygodd y Pwyllgor y newidiadau i drefniant ariannol y Swyddfa o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Hefyd, ystyriwyd materion yn codi o aelodaeth barhaus o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan staff a gyflogwyd yn flaenorol gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a'u gallu i drosglwyddo i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil pe dymument.

## **Y DYFODOL**

Er mai dim ond blwyddyn sydd ers sefydlu'r sefydliad newydd dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, daeth newidiadau pellach i rym ar 1 Ebrill 2007 o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r newidiadau mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â'r ffordd yr ariennir y Swyddfa drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

## **DIGWYDDIADAU AR ÔL CAU'R FANTOLEN**

Mae pum aelod staff wedi trosglwyddo i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, a daeth hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2007. Mae hyn yn gadael 4 aelod staff sy'n dal i fod yn aelodau gweithredol o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Adam Peat**

**Swyddog Cyfrifyddu**

**7 Tachwedd 2007**

## ADRODDIAD TALIADAU

O 1 Ebrill 2006, ailraddiwyd fy swydd fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Grŵp 5 y Strwythur Cyflog Barnwrol.

\* Dyma fanylion fy hawliadau cyflog a phensiwn ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2007:

*	Cyflog	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig	Cyfanswm y Pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2007	Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian (CETV) y Pensiwn ar 31 Mawrth 2007	CETV y pensiwn ar 31 Mawrth 2006	Gwir gynnydd mewn CETV a gyllidir gan y cyflogwr	Budd ymarferol
<b>Enw a theitl</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Adam Peat Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	128.5	15-20	55-60	1,330	1,176	100	-

Mae'r ffigurau cyflog a phensiwn a roddir yn y tabl uchod yn dangos yr hawliadau llawn. Darperir gwybodaeth ategol yn Nodiadau i-iii isod.

\* Mae Atodlen 1 paragraff 2 (1) yn datgan bod yr Ombwdsmon yn gorfforaeth unigol.

Yr wyf, yn ymarferol, yn uniongyrchol gyfrifol am bob prif benderfyniad strategol a gweithredol a wneir yn fy Swyddfa.

\* Yn ystod y flwyddyn, talwyd cyfanswm o £1600 i Mr Pavelin fel cadeirydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio, yn seiliedig ar gyfradd ddyddiol (2005-06 £400).

\* **Eitemau sy'n ddarostyngedig i archwiliad**



## **Nodiadau**

### **(i) Cyflog**

Cyflog yw'r cyflog gros a delir yn ystod y flwyddyn.

### **(ii) Trefniadau pensiwn**

#### **Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**

Darperir y budd-daliadau pensiwn hyn dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

#### **Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian**

Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian yw gwerth cyfalaf y pensiwn, wedi'i asesu gan actiwari. Mae'n asesiad o gost darparu'r budd-daliadau pensiwn i'r cynllun pensiwn.

#### **Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian**

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian sy'n cael ei ariannu mewn gwirionedd gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronodig o ganlyniad i chwyddiant, y cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau sydd wedi eu trosglwyddo o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac yn defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### **(iii) Budd Ymarferol**

Mae gwerth ariannol unrhyw fudd ymarferol yn ymwneud ag unrhyw fudd a roddir gan y cyflogwr ac sy'n cael ei drin gan Gyllid y Wlad fel budd trethadwy.

**Adam Peat**

**Swyddog Cyfrifyddu**

**7 Tachwedd 2007**

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

1. O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon am bob blwyddyn ariannol, yn unol â'r cyfarwyddyd gan y Trysorlys, gan roi manylion yr adnoddau a gaffaelwyd, y rhai a ddelir o hyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r adnoddau a wariwyd i gyflawni fy swydd yn ystod y flwyddyn.
2. Paratwir y cyfrifon ar sail gronol a rhaid iddynt ddangos darlun gwir a theg o sefyllfaoedd busnes y swydd, y ffigurau adnoddau net terfynol, yr adnoddau a wariwyd ar amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn ariannol.
3. Fel Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am eu trosglwyddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru.
4. Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â'r *Financial Reporting Manual* a baratowyd gan y Trysorlys, ac yn enwedig:
  - (a) glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
  - (b) gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
  - (c) dynodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, a dadlennu ac esbonio unrhyw wriadau o bwys yn y cyfrifon; a
  - (d) pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.
5. Mae fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu'n cynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus yr wyf i, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn atebol amdano, tros gadw cofnodion priodol, a diogelu'r asedau, yn cael eu disgrifio ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, a gyflwynir gan y Trysorlys ac a gyhoeddir yn *Government Accounting*.

## DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

### 1. **Cwmpas Cyfrifoldeb**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni pwrpas Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel a ddiffinnir mewn statud ac yn ei nodau ac amcanion strategol, gan hefyd ddiogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd imi yn *Government Accounting*.

Yr wyf yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn atebol i'w Bwyllgor Archwilio o ran defnyddio adnoddau y sicrheir eu bod ar gael i gefnogi fy swyddogaethau statudol.

### 2. **Pwrpas y system rheolaeth fewnol**

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi ei dyfeisio i reoli risg i raddau rhesymol ac nid i ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i ganfod a blaenoriaethu unrhyw risg i gyflawniad fy mholisiau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u heffaith pe bai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i datblygu'n raddol yn ystod 2006-07.

### 3. **Y gallu i reoli risg**

Yr wyf yn parhau i weithredu trefniadau rheoli mewnol cadarn er mwyn sicrhau bod gan y Swyddfa y gallu i ganfod, asesu a rheoli risg yn effeithiol.

Yr Uwch Dîm Reoli a gadeirir gennyf sydd â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio rheoli risg. Mae'r prosesau'n cael eu datblygu er mwyn sicrhau y gellir rheoli risgiau corfforaethol a gweithredol yn ddiwyd. Hefyd, mae'r Pwyllgor Archwilio, ar ôl derbyn adroddiad cychwynnol am sefydlu cofrestr risg, wedi adolygu'n rheolaidd pa mor agored i risg yw'r sefydliad. Yn y gwaith hwn, yr wyf wedi parhau i elwa o brofiad sylweddol y cadeirydd, Mr Laurie Pavelin CBE FCA, mewn rheoli ariannol yn y sector cyhoeddus.

#### **4. Y fframwaith risg a rheoli risg**

Er mwyn sicrhau bod prosesau priodol ar waith, yr wyf wedi parhau i ddilyn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, a'r amserlen a bennir yn y ddogfen honno. At y diben hwn, fe'm cynorthwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a chan Bentley Jennison, fel Archwilwyr Mewnol.

Y mesurau a gyflwynir yw:

- (a) proses cynllunio busnes i werthuso perfformiad, cynlluniau a thargedau'r gorffennol ac i gyflwyno cynlluniau a thargedau ar gyfer y dyfodol fel a nodwyd yn y cynllun busnes ar gyfer 2006-07 a blynyddoedd dilynol sydd, yn dilyn adolygiad, wedi'i ymgorffori yn y ddogfen newydd ar gyfer 2008 ac wedi hynny. Mae hyn er mwyn sicrhau yr adolygir nodau ac amcanion y Swyddfa yn rheolaidd.
- (b) cynnal proses o asesu risg a fydd yn golygu mapio meysydd risg allweddol wrth iddynt effeithio ar gyflawni ei hamcanion busnes. Mae hyn yn helpu'r broses o wneud penderfyniadau a bydd yn helpu i ddylanwadu ar y rhaglen archwilio mewnol; ac
- (c) o fewn y prosesau rheoli risg, paratoi cynllun parhad busnes a fydd yn cael ei adolygu a'i brofi o bryd i'w gilydd i ddarparu modd o adfer gam wrth gam o ddigwyddiadau a fyddai'n amharu ar ein capasiti gweithredu.

#### **5. Adolygu effeithiolrwydd**

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae gennyf gefnogaeth y Pwyllgor Archwilio a Bentley Jennison, yr Archwilwyr Mewnol. Mae hyn yn rhoi gwybod i mi am eu canfyddiadau a'u gwerthusiadau o'r system o reoli mewnol. Cynorthwyir hyn gan lythyr rheoli'r archwilwyr allanol ac unrhyw adroddiadau eraill a gyflwynir ganddynt.

#### **6. Problemau Sylweddol o ran Rheolaeth Fewnol**

Nid wyf wedi profi unrhyw broblemau rheoli sylweddol, fel y'u diffinnir yn *Government Accounting*, yn ystod y flwyddyn.

**Adam Peat**

**Swyddog Cyfrifyddu**

**7 Tachwedd 2007**

## **TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007 dan baragraff 17(2) Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae'r rhain yn cynnwys y Crynodeb Adnoddau Terfynol, y Datganiad Costau Gweithredu a'r Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a Datganiad Costau Gweithredu Nodau ac Amcanion yr Adran a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Yr wyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Daliadau a ddisgrifir yn yr Adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

### **Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys Adroddiad ar Daliadau, a'r Datganiadau Ariannol yn unol â pharagraff 16(1) Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a Chyfarwyddiadau'r Trysorlys parthed hynny, ac am sicrhau cysondeb trafodion ariannol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u hamlinellu yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau sydd i'w harchwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol, ac â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Rhoddaf i chi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a archwilir wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a chyfarwyddiadau parthed honno gan y Trysorlys. Adroddaf ichi ynghylch a yw'r wybodaeth benodol a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad yr Ombwdsmon, y Sylwadau ar Reolaeth a'r Adroddiad ar Daliadau, yn gyson â'r datganiadau ariannol yn fy marn i. Rwyf hefyd yn rhoi fy marn ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob mater o bwys, wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, adroddaf i chi os nad yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu os nad yw gwybodaeth sy'n ofynnol gan awdurdodau perthnasol ynghylch taliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu.

Yr wyf yn adolygu a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol ar dudalennau 10 ac 11 yn adlewyrchu cydymffurfiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru â chyfarwyddyd Trysorlys EM, a byddaf yn adrodd os nad yw'n gwneud hynny. Nid oes rhaid imi ystyried a yw'r Datganiad hwn yn cynnwys pob risg a phroses reoli, na llunio barn am effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Yr wyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Rwy'n ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys yn y datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sail barn yr archwilydd

Yr wyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys edrych yn fanwl, ar sail prawf, ar dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau a archwilir. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon sylweddol a'r penderfyniadau a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn fwyaf priodol i amgylchiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a ddefnyddir hwy yn gyson ac a ddatgelir hwy yn ddigonol.

Bu i mi gynllunio a chynnal f'archwiliad er mwyn i mi dderbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol i gael tystiolaeth ddigonol er mwyn cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a archwilir yn cynnwys unrhyw gamddatganiad, pa un a achoswyd hynny trwy gamgymeriad neu dwyll, a bod y gwariant a'r incwm ym mhob modd o bwys wedi cael eu defnyddio at y dibenion y bwriadwyd hwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth ffurfio barn, yr wyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a archwilir.

## Barn

### Barn Archwilio

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â hi gan y Trysorlys, o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31<sup>ain</sup> Mawrth 2007, ac o'r gofyniad arian parod net, yr adnoddau net terfynol, yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, yr enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau a archwilir wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed parthed honno; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys Adroddiad yr Ombwdsmon, y Sylwadau ar Reolaeth a'r Adroddiad ar Daliadau, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Y Farn Archwilio ynghylch Cysondeb

- Yn fy marn i, ym mhob modd materol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w cynnig am y datganiadau ariannol hyn. \*

**Jeremy Colman**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Dyddiad: 9 Tachwedd 2007**

*Swyddfa Archwilio Cymru*

*2-4 Park Grove*  
*Caerdydd CF10 3PA*

**CRYNODEB O'R FFIGURAU ADNODDAU TERFYNOL**

*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007*

	Amcangyfrif Diwygiedig 2006-07			Alldro			Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/ (gormodedd) a amcan- gyfrifwyd	2005-06
	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm Net	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm Net		Ffigurau terfynol y flwyddyn flaenorol
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<i>Costau Gweinyddu</i>	2985	8	2877	2504	(8)	2496	381	2294
<i>Cyfanswm Adnoddau</i>	2985	8	2877	2504	(8)	2496	381	2294
<i>Gofynion Arian Parod Net Nodyn 2</i>			4247			4450		2952

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 32 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**DATGANIAD YNGHYLCH Y COSTAU GWEITHREDU**

*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007*

	Nodyn	2006-07	2005-06
		£000	£000
<b>Costau gweinyddol:</b>			
Costau staff	3	1643	1473
Costau gweinyddol eraill heb fod yn rhai staff	4	861	828
<b>Costau Gweinyddol Gros</b>		<b>2504</b>	<b>2301</b>
Incwm Gweithredu	5	(8)	(7)
<b>Costau Gweinyddol Net</b>		<b>2496</b>	<b>2294</b>
<b>COSTAU GWEITHREDU NET a FFIGURAU ADNODDAU NET TERFYNOL</b>		<b>2496</b>	<b>2294</b>

Mae'r holl weithgareddau a ddechreuwyd o fewn y cyfnod yn parhau.

**Datganiad ynghylch yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig**

	Nodyn	2007	2006
		£000	£000
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth			
Elw / (colled) Actiwaraidd ar Gynllun Pensiwn	3	<u>(650)</u>	<u>50</u>
Cyfanswm enillion (colledion) cydnabyddedig yn y flwyddyn		<u>(650)</u>	<u>50</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 32 yn rhan o'r cyfrifon hyn



**MANTOLEN**

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007

	Nody n	2006-07 £000	2005-06 £000
<b>Asedau sefydlog</b>			
Asedau sefydlog diriaethol	6	246	275
Asedau sefydlog anniriaethol	7	64	95
		310	370
<b>Dyledus gan ddyledwyr ar ôl mwy na blwyddyn</b>			
	8	42	-
		42	-
<b>Asedau Cyfredol</b>			
Dyledus gan ddyledwyr o fewn blwyddyn	8	230	266
Arian yn y banc ac mewn llaw	9	14	358
		244	624
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
Dyledus i gredydwyr o fewn blwyddyn	10	(68)	(181)
Asedau cyfredol net		176	443
<b>Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>528</b>	<b>813</b>
Dyledus i gredydwyr ar ôl blwyddyn	10	(53)	(63)
Darpariaethau	11	(606)	(812)
		<b>(659)</b>	<b>(875)</b>
		<b>(131)</b>	<b>(62)</b>
<b>Gwarged (Diffyg) y Gronfa Pensiwn</b>			
	3	160	(840)
		<b>29</b>	<b>(902)</b>
<b>Ecwiti Trethdalwr</b>			
Cronfa Gyffredinol	15	<b>29</b>	<b>(902)</b>
<b>Adam Peat</b>			
<b>Swyddog Cyfrifyddu</b>			<b>7 Tachwedd 2007</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 32 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**DATGANIAD LLIF ARIAN**

*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007*

	<b>Nodyn</b>	<b>2006-07</b>	<b>2005-06</b>
		£000	£000
All-lif arian clir o weithgareddau gweithredu	16	(4409)	(2560)
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol	17	(41)	(392)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	18	4106	2681
<b>(Gostyngiad) mewn Arian</b>	18	<b>(344)</b>	<b>(271)</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 32 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**ADNODDAU YN ÔL NODAU AC AMCANION**

*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007*

Amlinellir costau darparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru isod.

Roedd y dyraniad i bob un o'r amcanion fel a ganlyn:

- (a) Amcangyfrif o'r amser staff a dreuliodd ar yr amcan
- (b) Dyraniad gwariant uniongyrchol
- (c) Dosrannu costau eraill pro rata i'r amcangyfrif amser staff

Gan nad oes newid adnabyddadwy wedi bod i waith y Swyddfa, a bod y nodau wedi bod yn gyson dros y ddwy flynedd, defnyddiwyd yr un sail dosrannu i ddarparu ffigurau cymaradwy ar gyfer 2005-06. Yr oedd yr adrodd yn 2005-06 yn seiliedig ar y gwahanol awdurdodaethau, ond gyda'r newidiadau i'r Swyddfa, nid yw hyn yn briodol mwyach.

	2006-07			2005-06		
	Gros £000	Incwm £000	Net £000	Gros £000	Incwm £000	Net £000
Ymchwilio i gwynion mor drwyadl ag sy'n angenrheidiol ac mor gyflym ag sy'n bosibl	1847		1847	1697		1697
Codi ymwybyddiaeth o wasanaeth yr Ombwdsmon a sicrhau ei fod ar gael yn rhwydd i ddarparu ddefnyddwyr	171		171	157		157
Defnyddio gwersi a ddysgir yn sgil fy ymchwiliadau i hybu ymarfer da a threfn lywodraethu dda gan gyrff cyhoeddus	352		352	324		324
Sicrhau trefn lywodraethu dda a rheolaeth effeithiol o fewn fy swyddfa	134	(8)	126	123	(7)	116
<b>Costau gweithredu net</b>	<b>2504</b>	<b>(8)</b>	<b>2496</b>	<b>2301</b>	<b>(7)</b>	<b>2294</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 32 yn rhan o'r cyfrifon hyn

1. **Datganiad ynghylch y Polisiâu Cyfrifyddu**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â *Financial Reporting Manual* (FReM) y Llywodraeth, a gyhoeddir gan Drysorlys EM, ac sydd mewn grym ar gyfer 2006-07. Mae'r polisiâu cyfrifyddu yn y FReM yn dilyn yr arferion cyfrifyddu sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol yn y DU (UK GAAP) ar gyfer cwmnïau, cyn belled ag y maent yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y cyfrifon, i bwrpas rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisiâu cyfrifyddu arbennig sydd wedi eu mabwysiadu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru isod. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod o bwys mewn perthynas â'r cyfrifon.

1.1 **Confensiwn Cyfrifyddu**

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, gan ei addasu i ystyried unrhyw achos lle cafodd gwerth yr asedau sefydlog eu hailbrisio yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

1.2 **Asedau Sefydlog Diriaethol**

Mae gwariant wedi'i gyfalafu lle disgwylir i'r ased a brynwyd fod ag oes ddefnyddiol dros nifer o flynyddoedd a lle mae ei gost yn fwy na £1k. Dangosir asedau sefydlog diriaethol ar eu cost llai lwfans am ddibrisiad. Gall asedau sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu ar yr amod eu bod yn rhai cyfalaf a bod cyfanswm eu gwerth dros £1k. Ar sail adnabyddiaeth gychwynnol, mesurir asedau sefydlog ar sail eu cost gan gynnwys costau megis costau gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i fod yn rhai a ddefnyddiwyd i'w gweithredu ar gyfer y defnydd y bwriadwyd hwynt. Wrth adolygu costau'r asedau sefydlog y caffaelwyd yn flaenorol a'r prisiau a dalwyd am y caffaeliadau newydd yn ystod y flwyddyn, nid oes gwahaniaeth materol rhwng gwerth llyfr net hanesyddol yr asedau a'u cost adnewyddu llai dibrisiad.

1.3 **Dibrisiad**

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cael eu dibrisio yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i roi eu gwerth gweddilliol tybiedig ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig. Caiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio o'r pwynt y defnyddir yr ased gyntaf. Ac eithrio lle nodir hynny'n wahanol, tybiwyd bod eu hoes fel a ganlyn:

Dodrefn a ffitiadau	10 mlynedd
Costau ffitio	10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai
Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth	3 i 5 mlynedd
Cyfarpar cyfathrebu	10 mlynedd

1.4 **Asedau anniriaethol**

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a brynwyd yn cael eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol lle achosir gwariant o £1k neu fwy. Gall asedau

anniriaethol sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu ar yr amod eu bod yn rhai cyfalaf a bod cyfanswm eu gwerth dros £1k. Ac eithrio lle na ellir cadarnhau tystiolaeth ddibynadwy o'u gwerth cyfredol, caiff y rhain eu hail-ddatgan yn ôl eu gwerth cyfredol bob blwyddyn. Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros y tymor byrrach yn y drwydded a'u hoes economaidd ddefnyddiol.

#### 1.5 ***Tâl Cyfalaf***

Cynhwysir credyd yn y costau gweithredu sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cyfrifir y tâl hwn yn ôl y gyfradd wirioneddol a bennir gan Drysorlys EM (3.5% ar hyn o bryd) ar sail swm cario cyfartalog yr holl asedau, llai rhwymedigaethau ar wahân i falansau arian parod.

#### 1.6 ***Treth ar Werth***

Nid yw swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i chofrestru ar gyfer TAW. Codir TAW na ellir ei hadennill o dan y pennawd treuliau mwyaf priodol. Fodd bynnag, tan 2005-06, oherwydd y gallai'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru adennill TAW, cafodd cyfran o'r TAW ei hadennill dan y rheolau eithrio rhannol.

#### 1.7 ***Pensiynau***

Mae'r ymrwymadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn dod dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n bennaf yn un anghyfrannol a heb ei ariannu; dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa); a thrwy daliadau uniongyrchol i'r tri Chomisiynydd blaenorol dros Weinyddu Lleol yng Nghymru. Datgelir y manylion llawn yn y Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon. Caiff costau darparu'r pensiynau hyn eu codi drwy'r Datganiad Costau Gweithredu.

#### 1.8 ***Costau gadael yn gynnar***

Lle mae'n ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu costau budd-daliadau ychwanegol sy'n fwy na'r budd-daliadau arferol a delir dan y cynllun pensiwn priodol i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar, caiff y costau hyn eu cynnwys yn llawn ar y datganiad costau gweithredu pan fydd y rhwymedigaeth benodol yn codi.

#### 1.9 ***Prydlesi Gweithredol***

Caiff gwariant dan y prydlesau gweithredu ei gynnwys ar y Datganiad Costau Gweithredu o fewn y cyfnod y mae'r gwariant yn digwydd.

#### 1.10 ***Costau Staff a Chostau Gweinyddol Eraill***

Mae'r holl gostau cyflog a chostau cysylltiedig ar gyfer staff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi eu talu'n llawn o'r cyfrifon hyn. Mae'r dulliau a ddefnyddir i ddyrannu costau wedi eu dyfeisio i roi'r adlewyrchiad mwyaf cywir o gostau rhedeg swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r sail dosrannu'n amcangyfrif o'r amser a dreulir ar amcanion y Swyddfa gan y staff, ac eithrio gwariant y gellir ei dalu'n uniongyrchol.

#### 1.11 ***Cyfnewid Arian Tramor***

Mae trafodion busnes mewn arian tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion hyn.

## 1.12 Offerynnau Ariannol

Dan FRS 13, *Derivatives and Other Financial Instruments*, rhaid datgelu swyddogaeth offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod dan sylw o ran creu neu newid y risgiau. Datgelir y rhain fel y bo'n briodol.

## 2. CYSONI ADNODDAU A'R GOFYNION ARIAN PAROD NET

	<i>Nodyn</i>	<i>Amcangyfrif diwygiedig 2006-07</i>	<i>Ffigurau terfynol 2006-07</i>	<i>Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/ (gormodedd) a amcangyfrifwyd</i>	<i>Ffigurau terfynol 2005-06</i>
		£000	£000	£000	£000
<i>Alldro cyfanswm y Ffigurau Adnoddau Net Terfynol Datganiad Costau Gweithredu</i>		<b>2877</b>	<b>2496</b>	<b>381</b>	<b>2294</b>
<i>Caffael asedau sefydlog</i>	6/7	25	41	(16)	43
<i>Addasiadau croniadau:</i>					
<i>Eitemau heb fod yn rhai ariannol</i>	3/4	39	(29)	68	(36)
<i>Newidiadau cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod</i>	16		143	(143)	562
<i>Defnyddio darpariaethau</i>	11		89	(89)	89
<i>Cyllido pensiynau</i>	3	1306	1710	(404)	-
<i>Gofyniad o ran arian net Crynodeb o'r Alldro o ran Adnoddau</i>		<b>4247</b>	<b>4450</b>	<b>(203)</b>	<b>2952</b>

### Eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng yr Amcangyfrif o ran Gofyniad Arian Parod Net a'r Ffigurau Terfynol:

Mae'r amrywiad cyffredinol o fewn 10% o'r gyllideb ddiwygiedig. Yr oedd yr amcangyfrif diwygiedig yn caniatáu defnyddio'r gwared arian yn 2005-06 tuag at gyllido'r diffyg o ran pensiynau.

### 3. Niferoedd a Chostau Staff

Yr oedd nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd ar sail cyfwerth ag amser cyflawn (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2006-07	2005-06 wedi'i ailddatgan
	Nifer	Nifer
Uwch reolwyr	3	3
Ymchwilio i gwynion	24	19
Staff cefnogi ymchwilio i gwynion	7	7
Staff Gwasanaethau Corfforaethol / Gweithredol	5	5
Cyfanswm	39	34

Mae'r dadansoddiad wedi'i ailddatgan i ddangos y strwythur sy'n adlewyrchu'r dosrannu a ddefnyddiwyd yn Natganiad 5 Adnoddau yn ôl Nodau ac Amcanion.

Dyma'r costau cyflogi cyfunol:

	2006-07	2005-06
	£000	£000
Staff parhaol		
Cyflogau	1350	1094
Costau Nawdd Cymdeithasol	115	90
Costau pensiwn eraill	209	212
	<b>1674</b>	<b>1396</b>
Staff dros dro	25	89
Costau Nawdd Cymdeithasol	1	1
	<b>26</b>	<b>90</b>
	<b>1700</b>	<b>1486</b>
<b>Eitemau heb fod yn rhai ariannol</b>		
(Gostyngiadau)/ychwanegiadau i ddarpariaethau ar gyfer pensiynau'r cyn-ombwdsmon a chostau ymdeol yn gynnar	(117)	17
Costau cyllid pensiwn net eraill	60	(30)
Is-gyfanswm	<b>(57)</b>	<b>(13)</b>
Cyfanswm costau cyflogaeth	<b>1643</b>	<b>1473</b>

Mae costau staff dros dro yn cynnwys staff ar secondiad, pobl ar contractau dros dro a staff asiantaeth.

## **Pensiynau**

Mae dau gynllun pensiwn yn cael eu gweithredu ar ran y staff presennol. Mae rhwymedigaeth barhaus i dalu pensiynau cyn-ombwdsmyrn o hyd.

### **(a) Prif Gynllun Pensiwn y Llywodraeth**

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun buddion diffiniedig nas cyllidir ar gyfer sawl cyflogwr, ond ni all Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n sail iddo. Cynhaliwyd prisiad o'r cynllun ar 31 Mawrth 2003 gan Actiwari'r cynllun. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil ([www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)). Ar gyfer 2006-07, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £192k i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2005-06 £128k) ar un o'r pedair cyfradd rhwng 17.1% a 25.5% o gyflog pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog (yr oedd cyfraddau 2005-6 rhwng 16.2% a 24.6%). Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl gwerthuso'r cynllun yn llawn. O 2007-08 ymlaen, adolygir y bandiau cyflog, ond bydd y cyfraddau'n aros yr un fath. Mae'r cyfraddau cyfrannu wedi'u gosod i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2006-07 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bobl sydd eisoes yn bensiynwyr.

Caiff gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sy'n bensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Gan nad oedd unrhyw ddewisiadau wedi'u gwneud, nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy nac wedi'u talu ymlaen llaw i ddarparwyr pensiwn y bartneriaeth ar ddyddiad y fantolen.

### **(b) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa), sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn darparu budd-daliadau diffiniedig, sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol aelodau.

Yn unol â Safon Adrodd Ariannol Rhif 17 – Budd-daliadau Ymddeol (FRS 17), mae'n ofynnol i ddatgelu gwybodaeth benodol i ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant sy'n berthynol i gynlluniau pensiwn.

Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid diweddaraf o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ar 31 Mawrth 2004. Ar ôl yr adolygiad hwnnw, yr oedd y cyfraddau cyfrannu ardystiedig ar gyfer y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ym mhrisiad 31 Mawrth 2004 fel a ganlyn:

Ebrill 2004 hyd at Fawrth 2005	300% o gyfraniadau'r aelodau o 6%
Ebrill 2005 hyd at Fawrth 2006	324% o gyfraniadau'r aelodau o 6%
Ebrill 2006 hyd at Fawrth 2007	348% o gyfraniadau'r aelodau o 6%

Yr oedd y gyfradd cyfrannu dros y cyfnod cyfrifyddu yn 348% o gyfraniad yr aelodau (yn gyfwerth i 20.88% o gyflog pensiynadwy).

Yn dilyn y taliad o £1.64 miliwn i ymdrin â'r diffyg a amcangyfrifwyd gan yr Actiwari, cafodd gyfradd cyfrannu 2007-08 ei lleihau i 300% (yn gyfwerth i 18% o gyflog pensiynadwy).

## **Tybiaethau**

Dyma'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwarïaid cymwysedig annibynnol i ddiweddarau prisiad diweddaraf y Gronfa at ddibenion FRS17:



	31 Mawrth 2007	1 Ebrill 2006
	% y fl.	% y fl.
Cyfradd chwyddiant	3.2	2.5
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	4.7	4.0
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	3.2	2.5
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau gohiriedig	3.2	2.5
Cyfran o gyflogwyr sy'n dewis cymryd cyfandaliad	50%	50%
Cyfradd y disgownt	5.3	5.4

Hysbyswyd yr actiwari mai gwerth y farchnad Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ar 28 Chwefror 2007 oedd £883.42 miliwn. Mae'r asedau ar 31 Mawrth 2007 wedi'u hamcangyfrif drwy ddefnyddio enillion mynegai rhwng 28 Chwefror 2007 a 31 Mawrth 2007. Amlinellir gwerthoedd yr asedau ar y dyddiad cyfrifyddu isod.

	31 Mawrth 2007		31 Mawrth 2006	
	Cyfraddau adennill disgwylidig tymor hir (% y fl.)	Amcangyfrif gwerth mewn (£M)	Cyfraddau adennill disgwylidig tymor hir (% y fl.)	Amcangyfrif gwerth mewn (£M)
Ecwitiau	7.7	692.15	7.3	624.39
Eiddo	6.7	60.50	6.3	35.32
Bondiau'r Llywodraeth	4.7	31.48	4.3	35.06
Bondiau Corfforaethol	5.3	97.50	4.9	94.18
Eraill	<u>5.6</u>	<u>19.48</u>	<u>4.6</u>	<u>12.36</u>
Cyfanswm	7.2	901.11	6.8	801.31

### Sefyllfa cyllid

	31 Mawrth	
	2007	2006
	£000	£000
Cyfran yr asedau	4550	2780
Ymrwymadau tybiedig wedi eu cyllido	<u>(4390)</u>	<u>(3620)</u>
Gwarged/(diffyg)	<u>160</u>	<u>( 840)</u>

### Dadansoddiad o'r swm a gynhwysir yn y Costau Gwasanaethau Net

	31 Mawrth	
	2007	2006
	£000	£000
Cost y gwasanaeth cyfredol	50	70
Costau'r gwasanaeth yn y gorffennol	<u>0</u>	<u>(70)</u>
Cyfanswm costau gwasanaethau net	<u>50</u>	<u>0</u>

## Dadansoddiad o incwm a chostau ariannu

	31 Mawrth	
	2007	2006
	£000	£000
Adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun pensiwn	180	160
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	<u>(190)</u>	<u>(210)</u>
Adenillion net	<u>(10)</u>	<u>(50)</u>

## Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Gyfanswm y Symudiad mewn Cronfeydd

	31 Mawrth	
	2007	2006
	£000	£000
Adenillion go iawn heb gynnwys yr adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun pensiwn	50	390
Enillion a cholledion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun	(30)	(60)
Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	(670)	(330)
Eraill	<u>0</u>	<u>50</u>
Cyfanswm (colledion) enillion actiwaraid	<u>(650)</u>	<u>50</u>

## Dadansoddiad o'r symudiad yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth	
	2007	2006
	£000	£000
Diffyg yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	(840)	(920)
Cyfraniadau tuag at rwymedigaethau a ariennir	1,710	80
Cost y gwasanaeth cyfredol	(50)	70
Costau'r gwasanaeth yn y gorffennol	0	(70)
Incwm cyllid arall	(10)	(50)
(Colledion)/enillion actiwaraid	<u>(650)</u>	<u>50</u>
Diffyg yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	<u>160</u>	<u>(840)</u>

## Hanes o enillion a cholledion a brofwyd

	31 Mawrth	
	2007	2006
Y gwahaniaeth rhwng yr adenillion disgwyliedig a'r adenillion go iawn ar asedau'r cynllun		
Swm	£50k	£390k
Canran asedau'r cynllun	1.1%	14.0%
(Colledion) enillion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun		
Swm	£(30)k	£10k
Canran gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	-0.7%	0.3%
Newid mewn tybiaethau:		
Swm	£(670)k	£(280)k
Canran gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	-15.3%	-7.7%

Cyfanswm a gydnabyddir mewn Symudiad mewn Cronfeydd Wrth-Gefn		
Swm	£(650)k	£120k
Canran gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	-14.8%	3.3%

### **(c) Pensiynau i gyn-Ombwdsmyrn**

Gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn 1991, a chadarnhad dilynol gan Offeryn Statudol 1993 Rhif 1367, daeth Comisiynwyr Llywodraeth Leol yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae pensiynau'r tri Chomisiynydd Llywodraeth Leol blaenorol yn aros yn gyfrifoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac yn cael eu talu drwy'r datganiad costau gweithredu.

Mae'r pensiynau yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Gorchymyn Cynyddu Pensiynau. Yr oedd cyfanswm y taliadau a wnaed yn ystod 2006/7 yn £66k (£67k yn 2005/6). Mae'r rhwymedigaethau sy'n codi o'r ymrwymiad i gyllido'r pensiynau hyn, ynghyd ag unrhyw bensiynau dibynyddion, wedi eu cyfrifo i fod yn £606k (2006 £769k). Daw'r prif wahaniaeth o ganlyniad i'r penderfyniad i ddilyn cyfarwyddyd y Trysorlys y dylid rhoi disgownt ar bob rhwymedigaeth Pensiwn. Y gyfradd disgownt a ddefnyddiwyd oedd 5.3%, sef y gyfradd a ddefnyddiwyd ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, y cyfeirir ato uchod. Cyflawnwyd y cyfrifiad i bennu'r rhwymedigaeth gyffredinol yn fewnol drwy ddefnyddio tablau disgwyliadau oes ar gyfer dynion a merched yng Nghymru oddi ar wefan Adran Actwari'r Llywodraeth. Dangosir manylion pellach dan symudiadau mewn darpariaethau (Nodyn 11).

#### **4. Costau Gweinyddol heb fod yn rhai staff**

	2006-07	2005-06
	£000	£000
Rhenti o dan brydlesi gweithredu	238	244
Ffi Archwilwyr Allanol	15	17
Gwasanaethau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru i ymwneud ag adnoddau dynol	10	-
Gwasanaeth Ymgynghorol Proffesiynol	124	97
Costau eiddo eraill	88	77
Gwasanaethau cyfrifiadurol	51	64
Nwyddau, cyfarpar a gwasanaethau swyddfa	218	229
Teithio a chynhaliaeth	31	51
Is-gyfanswm	<b>775</b>	<b>779</b>
Dibrisio ac amorteiddio	99	88
Colled wrth waredu asedau sefydlog diriaethol	2	-
Cost credyd cyfalaf	(15)	(39)
Is-gyfanswm	<b>86</b>	<b>49</b>
<b>Cyfanswm y Costau Gweinyddol Eraill</b>	<b>861</b>	<b>828</b>

Mae cost y swyddfeydd, a nodir fel rhenti dan brydlesi gweithredu, yn cynnwys taliadau gwasanaeth sy'n rhan annatod o'r brydles a chost trethi'r adeiladau. Ond nid yw'r

symiau a ddatgelir yn Nodyn 12 – Ymrwymadau o dan Brydlesau – yng nghyswllt tir ac adeiladau, ond yn cynnwys costau contractau rhenti a gwasanaeth tymor hir.

Mae'r lleihad mewn teithio a chynhaliaeth o ganlyniad i ganoli'r swyddfa ym Mharc Bocam, fel nad oes angen teithio rhwng gwahanol swyddfeydd mwyach.

Mae'r cynnydd mewn ffioedd proffesiynol o ganlyniad i gostau uwch yn dilyn adolygiad gan yr ombwdsmon seneddol a'r angen cynyddol am gyngor arbenigol.

## 5. Incwm Gweithredu

Daw'r rhan fwyaf o'r incwm a dderbynnir o fuddsoddi cyllid dros ben yn y tymor byr

	2006-07 £000	2005-06 £000
Llog derbyniadwy	7	6
Incwm arall	<u>1</u>	<u>1</u>
	<u>8</u>	<u>7</u>

## 6. Asedau Sefydlog Diriaethol

	Gwaith ffitio	Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth	Dodrefn a ffitiadau eraill	Cyfarpar ffôn	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2006	<b>186</b>	<b>56</b>	<b>105</b>	<b>22</b>	<b>369</b>
Ailddosbarthiad		4	(4)		0
Ychwanegiadau	10	23			33
Gwaredion		(2)			(2)
<b>Ar 31 Mawrth 2007</b>	<b>196</b>	<b>81</b>	<b>101</b>	<b>22</b>	<b>400</b>
Dibriiad Ar 1 Ebrill 2006	36	34	20	4	94
Ailddosbarthiad		2	(1)		1
Codwyd yn y flwyddyn	20	27	10	3	60
Gwaredion		(1)			(1)
<b>Ar 31 Mawrth 2007</b>	<b>56</b>	<b>62</b>	<b>29</b>	<b>7</b>	<b>154</b>
<b>NBV ar 31 Mawrth 2007</b>	<b>140</b>	<b>19</b>	<b>72</b>	<b>15</b>	<b>246</b>
NBV ar 31 Mawrth 2006	150	22	85	18	275

## 7. Asedau Sefydlog Anniriaethol

Mae'r Swyddfa'n parhau i ddefnyddio system gyfrifiadurol o fonitro cwynion, a pherchennog y system yn y pen draw yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban. Talodd y swyddfa hon ffi drwyddedu er mwyn cael defnyddio'r system. Yn ystod y flwyddyn, prynwyd y modiwl Rhyddid Gwybodaeth newydd. Yn ogystal, prynwyd meddalwedd priodoldeb ar gyfer prosesau swyddfa. Dyma'r manylion:

	2006-07	2005-06
	£000	£000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill	167	161
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	8	6
Cyfanswm	<u>175</u>	<u>167</u>
Amorteiddio ar Ebrill 1	(72)	(35)
Amorteiddio yn ystod y flwyddyn	(39)	(37)
Cyfanswm	<u>(111)</u>	<u>(72)</u>
Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth	<u>64</u>	<u>95</u>

## 8. Dyledwyr

### Symiau sy'n daladwy mewn mwy na blwyddyn

Rhagdaliadau

### Symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn:

Gan adrannau o'r Llywodraeth

Gan bartïon eraill

Rhagdaliadau

2006-07	2005-06
£000	£000
42	-
124	168
1	2
105	96
<u>230</u>	<u>266</u>

Mae'r swm o £42k yn ymwneud â contract dwy flynedd gyda'r datblygwyr meddalwedd i gefnogi'r system gyfrifiadurol i gofnodi archwiliadau.

Y ddyled gan Adrannau'r Llywodraeth yw'r Dreth ar Werth y gellir ei hadennill a gododd o weithgareddau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y swm yn dal heb gael ei dalu; fodd bynnag, mae Cyllid a Thollau E M wedi setlo'r swm heb ei dalu yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08.

## 9. Arian yn y Banc ac mewn Llaw

Rhaid dychwelyd unrhyw arian a gedwir yn y cyfrif ar ddiwedd y flwyddyn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae credydwr £14k wedi'i gynnwys yn y cyfrifon, fel balans diwedd blwyddyn y cyfrifon banc a weithredir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cymru, a swm y grant a dderbyniwyd a wrthbwyswyd gan yr ad-daliad hwn. Mae hyn yn codi o'r newid yn y trefniadau ariannu ar ôl sefydlu Cronfa Gyfunol Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 10. Credydwyr

	2006-07	2005-06
	£000	£000
<b>Symiau sy'n daladwy mewn blwyddyn</b>		
Symiau sy'n ddyledus i'r Casglwr Trethi	-	4
Symiau sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Seneddol	1	32
Cronfa Gyfunol Cymru	14	-
Credydwyr masnach	53	145
	<hr/> 68	<hr/> 181
<b>Symiau sy'n daladwy mewn mwy na blwyddyn</b>		
Credydwyr masnach	53	63
	<hr/> 121	<hr/> 244

## 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	Ymddeol yn gynnar	2006-07 Pensiynau i Gyn- Gomisiynwyr	Cyfanswm	2005-06 Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill	43	769	812	884
Darparwyd yn y flwyddyn	-	106	106	17
Darpariaethau nad oes eu hangen mwyach	(11)	(212)	(223)	-
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(23)	(66)	(89)	(89)
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<hr/> <b>9</b>	<hr/> <b>597</b>	<hr/> <b>606</b>	<hr/> <b>812</b>

Mae'r ddarpariaeth ymddeol yn gynnar wedi'i lleihau yn dilyn ailasesiad o'r symiau sy'n weddill i'w talu.

Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth yn codi o'r hyn a arferai ganiatáu cynyddu pensiynau ac ailasesu disgwyliad oes yn flynyddol drwy ddefnyddio'r tablau.

Mae'r lleihad yn y ddarpariaeth pensiynau i Gyn-Gomisiynwyr yn codi o'r penderfyniad i ddilyn cyfarwyddyd y Trysorlys y dylid defnyddio ffactor disgownt ar gyfer y rhwymedigaethau. Rhoddir manylion pellach yn Nodyn 3

## 12. Ymrwymadau o dan Brydlesi Gweithredol

	2006-07		2005-06	
	Adeiladau £000	Eraill £000	Adeiladau £000	Eraill £000
Ar 31 Mawrth 2007, yr oedd y Swyddfa wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf yng nghyswllt prydlesi gweithredol a fyddai'n dod i ben:				
O fewn blwyddyn	-	5	44	-
mewn rhwng dwy a phum mlynedd	-	-	-	4
Ar ôl pum mlynedd	171	-	170	-
	<b>171</b>	<b>5</b>	<b>214</b>	<b>4</b>

## 13. Rhwymedigaethau amodol

Nid oes dim rhwymedigaethau amodol.

## 14. Ymrwymadau Cyfalaf

Nid oedd dim ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2007

## 15. Y Gronfa Gyffredinol

	2006-07	2005-06
	£000	£000
<b>Y Gronfa Gyffredinol ar 1<sup>af</sup> Ebrill</b>	<b>(902)</b>	<b>(1300)</b>
Cost gweithredu net	(2496)	(2294)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	4106	2681
Yn ddyledus yn ôl i Gronfa Gyfunol Cymru	(14)	-
Cost Credyd Cyfalaf	(15)	(39)
(Diffyg) / gwarged actiwaraidd	(650)	50
<b>Y Gronfa Gyffredinol ar 31<sup>ain</sup> Mawrth</b>	<b>29</b>	<b>(902)</b>

**16. Cysoni'r costau gweithredu â'r llifoedd arian gweithredu**

	Nodiadau	2006-07	2005-06
		£000	£000
<b>Cost gweithredu net</b>		<b>(2496)</b>	<b>(2294)</b>
Addasu ar gyfer eitemau anariannol	3,4	29	36
(Cynnydd) / gostyngiad o ran dyledwyr	8	(6)	(200)
(Gostyngiad) mewn credydwyr	10	(123)	(362)
Llai symudiad mewn credydwyr sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio trwy'r OCS		(14)	349
Taliad ar gyfer y diffyg yn y gronfa pensiynau	3	(1710)	-
Defnyddio darpariaethau		(89)	(89)
<b>All-lif arian clir o weithgareddau gweithredu</b>		<b>(4409)</b>	<b>(2560)</b>

**17. Gwariant Cyfalaf a buddsoddiad ariannol**

	2006-7	2005-6
	£000	£000
Ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol	(33)	(227)
Ychwanegiadau asedau sefydlog anniriaethol	(8)	(165)
All-lif arian clir o weithgareddau buddsoddi	<u>(41)</u>	<u>(392)</u>

**18. Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd/(lleihad) mewn arian parod**

	2006-7	2005-6
	£000	£000
Gofynion Arian Parod Net	(4450)	(2952)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	4106	2681
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian	<u>(344)</u>	<u>(271)</u>



## 19. Offerynnau ariannol

Oherwydd natur ddifasnach y rhan fwyaf o'i weithgareddau, a'r modd y mae cyrff y llywodraeth yn cael eu hariannu, nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn agored i'r un faint o risg ariannol ag a wynebir gan rai cyrff busnes. Cynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd ac ni thybir eu bod yn newid y risgiau a wynebir gan y Swyddfa wrth gyflawni ei gweithgareddau. Arian parod yw unig offeryn ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 20. Trafodion Busnes Partion Perthynol

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael nifer o drafodion o bwys gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Bu trafodion o bwys hefyd gyda Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol. Hefyd, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael nifer fach o drafodion gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrrff eraill y llywodraeth ganolog.

Dan weithdrefn ailgodi tâl y cytunwyd arni, adenillwyd y swm o £510.13 gan yr Ombwdsmon i dalu'n llawn am gost ychwanegol teithio a threuliau cysylltiedig i'r Swyddfa hon pan âi ei wraig gydag ef ar dripiâu busnes.

Yn ystod y flwyddyn, prynodd dau aelod staff, dan broses bidiau wedi'u selio, gyfarpar cyfrifiadurol diangen y pennwyd nad oedd ei angen gan fod y fanyleb yn annigonol ar gyfer y systemau cyfrifiadurol cyfredol.